**COFNODION CYFARFOD ARFEROL Y CYNGOR A GYNHALIWYD AR 8FED GORFFENNAF 2024**

Yn bresennol: Y Cynghorwyr Marc Lloyd Griffiths (Cadeirydd)

Morwenna Pugh

Mark Thomas

Rory Francis

David Meirion Jones

Geoffrey Jones

Peter Jones

Troy Maclean

Gareth Davies

Sioned Graham-Cameron, Clerc

Ellen Pugh, Dirprwy Glerc

**1. Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Linda Ann Jones, Eifiona Davies, Dewi Prysor a Dafydd Dafis.

**2. Datganiad o Fuddiant**

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

**3. Materion y Cadeirydd**

Penderfynwyd rhoi contract y parc ar agenda cyfarfod nesaf y Pwyllgor Mwynderau.

**4. Diweddariad gan yr Heddlu**

Nid oedd unrhyw beth i'w adrodd.

**5. Cyfranogiad y Cyhoedd**

Dim byd i'w adrodd.

**6. Derbyn a chadarnhau Cofnodion**

Cyflwynwyd y Cofnodion canlynol:
Cofnodion Cyfarfod Anarferol y Cyngor – 6 Mehefin 2024. Cynigiodd y Cynghorydd David Meirion Jones ac eiliodd y Cynghorydd Rory Francis eu bod yn gywir, a chytunodd pawb.

Cofnodion Cyfarfod Arferol y Cyngor – 20 Ebrill 2024. Cynigiodd y Cynghorydd Mark Tjhomas ac eiliodd y Cynghorydd Gareth Davies eu bod yn gywir a chytunodd pawb.

Cofnodion Cyfarfod Anarferol y Cyngor – 17 Mehefin 2024. Cynigiodd y Cynghorydd Troy Maclan ac eiliodd y Cynghorydd Rory Francis eu bod yn gywir a chytunodd pawb.

Cofnodion Cyfarfod Anarferol y Cyngor – 24 Mehefin 2024. Cynigiodd y Cynghorydd Geoffrey Jones ac eiliodd y Cynghorydd David Meirion Jones eu bod yn gywir a chytunodd pawb.

**7. Cwrs Diogelu Data**

Trafodwyd dyddiadau ar gyfer Cwrs Diogelu Data a chynigiodd Y Cynghorydd David Meirion Jones ac eiliodd Y Cynghorydd Morwenna Pugh bod y Cyngor Tref yn holi os oedd y 19eg Awst yn gyfleus a chytunodd pawb.

**8. Polisi Gwarchod Enwau Cymraeg a Chynhenid**

Cynigiodd Y Cynghorydd Mark Thomas ac eiliodd Y Cynghorydd David Meirion Jones bod y Cyngor Tref yn mabwysiadu'r polisi Gwarchod Enwau Cymraeg a Chynhenid a chytunodd pawb.

**9. Datblygiadau yn yr Ardal**

Nid oedd unrhyw beth i'w adrodd.

**10. Rhestr Taliadau a Derbyniadau**

Cynigiodd Y Cynghorydd Mark Thomas ac eiliodd Y Cynghorydd Troy Maclean bod y rhestr yn cael ei derbyn a chytunodd pawb.

**11. Coeden Goffa**

Ystyriwyd cais a dderbyniwyd i blannu coeden goffa yng Nghae Manod. Cynigiodd Y Cynghorydd Mark Thomas ac eiliodd Y Cynghorydd Troy Maclean bod y Cyngor Tref yn rhoi caniatâd ond bod angen sicrhau nad oedd unrhyw gyfleustodau dan y tir i ddechrau, a chytunodd pawb.

**12. Cwt Canŵs**

Ystyriwyd cynllun a phris deunyddiau i drwsio'r Cwt Canŵs. Cynigiodd Y Cynghorydd Geoffrey Jones ac eiliodd Y Cynghorydd Troy Maclean bod y cynllun yn cael ei gymeradwo a chytunodd pawb.

**13. Materion er Gwybodaeth**

Nid oedd unrhyw beth i'w adrodd.

Death y cyfarfod i ben am 7.18pm

DRAFT